moroedd glân
troi'r llanw ar blastig
clean seas
turn the tide on plastic

# Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr

Mae Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr Cymru (CGSM) yn cael ei gyflawni drwy rwydwaith o sefydliadau a chymunedau sy'n rhan o Bartneriaeth Moroedd Glân Cymru. Mae pob partner wedi ymrwymo i gyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion yr CGSM dros y tair blynedd nesaf. Mae Welsh Government yn hwyluso'r prosiect ac maent yn darparu cymorth cyfathrebu drwy gylchlythyr rheolaidd a gwefan.

Mae Partneriaid Moroedd Glân Cymru yn gwneud addewid cyhoeddus i gydweithio ac adrodd ar y cynnydd wrth fynd i'r afael â sbwriel môr, yn unol ag ymgyrch Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig. Nod y Bartneriaeth yw gweithredu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ddatblygu dull cydweithredol ar gyfer cyflawni'r CGSM, gan ganolbwyntio ar gymryd camau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol sbwriel môr.

Cwrddodd Partneriaid Moroedd Glân Cymru ym mis Tachwedd 2019 i adolygu cynnydd a'r dystiolaeth ymchwil o dair blynedd gyntaf CGSM 2017–20, a gwnaethant gytuno i gyfrannu at set o gamau gweithredu cyffredin ar gyfer 2020–23

## Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr 2020–23

### 1. Canolbwyntio ar gamau gweithredu ataliol i atal sbwriel yn y tarddiad drwy:

a. weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu strategaeth Mwy nag Ailgylchu ac yn benodol Cynllun Atal Sbwriel Cymru

b. cynyddu cyfranogiad gwirfoddol cymaint ag y bo modd, i greu consensws ynghylch yr angen am ragor o gamau gweithredu ataliol gan fusnesau, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau newidiadau deddfwriaethol priodol

### c. Cefnogi a chysylltu ymatebion a arweinir gan gymunedau a gwirfoddolwyr drwy:

a. barhau i ganolbwyntio ar gynyddu maint, cyrhaeddiad, cydlyniant ac effaith sesiynau **glanhau traethau** drwy drefniadau gwell ar gyfer mapio gweithgarwch, mannau sydd angen sylw arbennig a bylchau

b. cefnogi gweithredu a arweinir gan y gymuned fel Cymunedau Di-blastig Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth a Cheidwaid y Môr (Ocean Guardians)

c. gweithio drwy gynghorau tref a chymuned i fanteisio i'r eithaf ar Statws y Faner Las

d. adeiladu ar lwyddiant mentrau gofodol e.e. mynd i’r afael â tharddiad sbwriel drwy ddalgylchoedd; drwy gysylltu gweithredu cymunedol ar hyd Llwybr Arfordir Cymru

**d. Hyrwyddo, cefnogi a chysylltu mentrau i newid ymddygiad drwy:**

a. barhau i ddatblygu ac ehangu rhaglenni addysg a gwaith ymgysylltu â phobl ifanc

b. canolbwyntio ar fentrau proffil uchel, wedi eu targedu sy’n cael effaith fawr – Ail-lenwi Cymru, Gallwch Chi Stopio’r Bloc, Glanhau Traeth mewn 2 Funud

c. gweithio gyda Chroeso Cymru a’r sector twristiaeth i rannu neges Moroedd Glân Cymru, rhoi arweiniad ar ddatrysiadau a chynnwys ymwelwyr yn y gwaith

d. gweithio gyda’r diwydiant pysgota (gan gynnwys y sector hamdden), porthladdoedd a harbwrs i wella’r ffordd mae offer pysgota’n cael eu rheoli a chreu capasiti ar gyfer cynlluniau pysgota am sbwriel

**e. Cyfathrebu a mesur effeithiau drwy:**

a. hyrwyddo negeseuon “Moroedd Glân Cymru” cyffredin.

b. cyfrannu astudiaethau achos at gylchlythyr a gwefan Moroedd Glân Cymru.

c. creu mecanweithiau cyffredin ar gyfer adrodd am sesiynau glanhau traethau.

d. llunio adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn addewidion Moroedd Glân Cymru.

Gofynnir i Bartneriaid Moroedd Glân Cymru gwblhau eu haddewidion gan nodi tri cham gweithredu â blaenoriaeth a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr 2020–23. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan Moroedd Glân Cymru.

Gofynnir i Bartneriaid ddarparu adroddiadau blynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni’r addewidion.